# G2 Ceisio am Rheolaeth Adeiladu

Mae yna ddau weithdrefn ar gyfer rhoi rhybudd i'r Awdurdod Lleol o'ch bwriad i gario allan gwaith, drwy gyflwyno Cynlluniau Llawn neu drwy Hysbysiad Adeiladu.

## *Cynlluniau Llawn:*

Math o Gais *(plîs ticiwch un bocs yn unig):*

**Cynlluniau Llawn** ☑ **Rhybudd Adeiladu** ☐

Y weithdrefn fwyaf adnabyddus yw drwy gyflwyno "Cynlluniau Llawn", ble mae'r person sy'n dymuno gwneud y gwaith, neu eu hasiant, yn cyflwyno cynlluniau sy'n dangos manylion llawn o'r gwaith. Bydd y cynlluniau hyn wedyn yn cael eu gwirio ar gyfer cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu ac os yn foddhaol, bydd Hysbysiad Caniatâd yn cael ei gyhoeddi.

**Manteision y broses Cynlluniau Llawn**
Byddwch yn derbyn penderfyniad ffurfiol ar ôl i'r broses wirio gael ei gwblhau. Gall Hysbysiad Caniatâd gael eu gyflwyno i sefydliadau ariannol, cyfreithwyr, syrfewyr ac yn y blaen pan yn symud tŷ neu ceisio am fenthyciad. Mae ganddo'ch y sicrwydd, os yw'r gwaith yn cael ei gario allan yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd, bydd y rheoliadau yn cael eu bodloni.

**Sut mae cyflwyno cais Cynlluniau Llawn?**
Cwblhewch y ffurflen gais (BCF-01) yn ddyblyg gan gynnwys:-

- Dau gopi o bob cynllun manwl, adrannau a drychiadau, sy'n ymgorffori holl nodiadau technegol angenrheidiol, cyfrifiadau a manylebau cefnogol.
- Dau gopi o gynllun 1:1250 yn dangos safle a maint yr adeilad neu'r estyniad, ei berthynas â'r ffiniau ag adeiladau a strydoedd eraill
- Lle'n briodol, amcangyfrif ysgrifenedig yn seiliedig ar gostau proffesiynol heb gynnwys TAW.
- Y ffi briodol (cyfeiriwch at Tabl Taliadau ABC).

Bydd angen dau gopi ychwanegol o'r cynlluniau pe bai'r cais am unrhyw beth heblaw annedd ddomestig sengl megis swyddfeydd, siopau, ffactrïoedd, gwestai, tai llety, adeiladau cyhoeddus ac adeiladau di breswyl eraill.

## *Hysbysiad Adeiladu:*

Math o Gais *(plîs ticiwch un bocs yn unig):*

**Cynlluniau Llawn** ☐ **Rhybudd Adeiladu** ☑

Mae'r weithdrefn Hysbysiad Adeiladu yn ddefnyddiol ar gyfer gwneud gwaith ar brosiectau llai, ac hefyd, os yw'r person sy'n gwneud y gwaith yn gyfarwydd â'r Rheoliadau, mae'n galluogi'r gwaith fynd ymlaen yn gyflym heb ddarparu cynlluniau. Ni fydd fodd bynnag bosib defnyddio y weithdrefn hon ar gyfer prosiectau penodol, megis siopau a swyddfeydd, ble mae'r rheoliadau yn gosod gofynion ar gyfer modd o ddianc os bydd tân.

**Manteision y weithdrefn Hysbysiad Adeiladu**
Nid yw cynlluniau manwl eu hangen bob amser, sy'n arwain at arbedion mewn amser a chostau. Nid yw gwasanaethau dylunydd bob amser yn hanfodol ond efallai bydd yr angen am rai manylion nes ymlaen. Unwaith fydd y cais wedi ei gyflwyno, bydd dim ond angen i chi aros 48 awr cyn dechrau'r gwaith, sy'n osgoi unrhyw oedi a gei'r gyda'r broses Cynlluniau Llawn.

# Ceisio am Rheolaeth Adeiladu

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

**Yr Anfanteision**

Gan nad oes angen cynllun, byddwch byth yn derbyn y sicrwydd y byddai cynlluniau a gymeradwywyd yn ei roi i chi. Mae'r holl broses o wneud yn siŵr bod eich gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu yn cael ei wneud ar yr ymweliad safle. Mae hyn yn anfantais fawr, oherwydd os yw problem yn cael ei ddarganfod, mae'n debygol bod y gwaith wedi cael ei gario allan yn barod, fydd yn golygu bydd angen rhywfaint o waith adfer.

Gyda'r Cais Hysbysiad Adeiladu rydych yn cymeryd yr holl gyfrifoldeb o wneud yn siŵr fod y gwaith yn cydymffurfio gyda gofynion y Rheoliadau Adeiladu.

Rydych angen sicrhau bod eich adeiladwr yn gyfarwydd ar holl Reoliadau perthnasol ac byddwch angen profi bod y gwaith yn cydymffurfio pan fydd y swyddog Rheolaeth Adeiladu yn ymweld â'r safle.

Pan yn cyflwyno Hysbysiad Adeiladu mae angen talu'r ffi i gyd pan yn cyflwyno'r cais.

**Sut i gyflwyno Hysbysiad Adeiladu?**

Cwblhewch y ffurflen gais (BCF-01) gan gynnwys:-

- Lle'n briodol, amcangyfrif ysgrifenedig yn seiliedig ar gostau proffesiynol heb gynnwys TAW.
- Y ffi briodol (cyfeiriwch at Tabl Taliadau ABC), ac yn achos adeiladau newydd ac estyniadau;
- Dau gopi o gynllun 1:1250 yn dangos safle a maint yr adeilad neu'r estyniad, ei berthynas â'r ffiniau ag adeiladau a strydoedd eraill

## ***Canllawiau yr gyfer y Ffurflen Gais:***

**1.Manylion yr Ymgeisydd:** Rhowch eich enw LLAWN, cyfeiriad, rhif ffôn/ffacs a cyfeiriad e-bost.

**2.Manylion yr Asiant:** Rhowch fanylion eich Hasiant.

**3.Cyfeiriad/Lleoliad y Safle:** Rhowch y cyfeiriad ble mae'r gwaith yn mynd i gael ei gario allan. Os nad oes cyfeiriad pendant eto, rhowch ddisgrifiad manwl o'r lleoliad.

**4.Gwaith Arfaethedig:** ***Disgrifiad o'r Gwaith:*** Darparwch wybodaeth o'r math o waith fydd yn cael ei gario allan e.e. estyniad, addasiadau.......
***Cyflenwad Dŵr:*** Prif Gyflenwad neu Cyflenwad Dŵr Preifat?
***Dull o Ddraenio:*** e.e. Tanc Septig neu System Garthffosiaeth Gyhoeddus?

**5.Defnydd yr Adeilad a Gwybodaeth Pellach:**
Darparwch ddefnydd arfaethedig/presennol yr adeilad e.e. Annedd, swyddfa neu siop.......

**6.Taliadau:** Cyfeiriwch at y Tabl Taliadau ABC.

**7.Datganiad:** Darparwch Enw, llofnod a dyddiad.

Fersiwn 0.2 10/04/2011